Atodiad 3

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Y Bil Cynlluniau Pensiwn**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Cynlluniau Pensiwn yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Mehefin 2025. Gellir cael copi o'r Bil yn: 240255en Pension Schemes Bill.pdf. Mae Rhan 1, Pennod 1 o'r Bil yn ymwneud â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**Amcan(ion) y Polisi**

3. Mae amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU wedi eu nodi yn adran trosolwg y Nodiadau Esboniadol a luniwyd ar gyfer cyflwyno'r Bil. Yn gryno:

   - Nod y Bil Cynlluniau Pensiwn yw cryfhau buddsoddiad pensiwn drwy ganlyniadau gwell a mwy o werth mewn cynlluniau pensiwn sector preifat, gan gynyddu'r swm sydd ar gael i aelodau'r cynlluniau hynny. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cydgrynhoi yn y farchnad pensiynau, yn canolbwyntio ar werth a chanlyniadau i aelodau ac yn galluogi cynlluniau pensiwn i fuddsoddi mewn ystod ehangach o asedau.

   - Bydd Pennod 1 o Ran 1 o'r Bil yn galluogi diwygiadau i reoli buddsoddiadau yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (y Cynllun) yng Nghymru a Lloegr. Nod y diwygiadau hyn yw sicrhau bod rheoli buddsoddiadau'r Cynllun hwn yn darparu'r manteision maint yn llawn, gan gynnwys mwy o arbenigedd, gwell gwerth am arian a gwell gwydnwch.

**Crynodeb o'r Bil**

4. Mae'r Bil yn fenter bolisi drawslywodraethol a noddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n gweithio gyda'r Weinyddiaeth Dai a Llywodraeth Leol mewn perthynas â Phennod 1 o Ran 1 o'r Bil.

5. Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn cwmpasu:

   - Ystod o fesurau i gryfhau buddsoddiad pensiwn mewn perthynas â chynlluniau pensiwn sector preifat. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cydgrynhoi yn y farchnad pensiynau, yn canolbwyntio ar werth a chanlyniadau i aelodau ac yn galluogi cynlluniau pensiwn i fuddsoddi mewn ystod ehangach o asedau.

   - Ym Mhennod 1 o Ran 1, ceir diwygiadau i reoli buddsoddiad yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (y Cynllun) yng Nghymru a Lloegr er mwyn sicrhau bod rheoli buddsoddiadau'r Cynllun hwn yn darparu'r manteision

maint yn llawn, gan gynnwys mwy o arbenigedd, gwell gwerth am arian a gwell gwydnwch.

6. Gweinyddir y Cynllun yn lleol gan 86 o awdurdodau gweinyddol, wyth ohonynt yn awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r mesurau ym Mhennod 1 o Ran 1 o'r Bil yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau a fyddai'n cael yr effaith o addasu swyddogaethau'r wyth awdurdod hyn mewn perthynas â'r Cynllun.

7. Mae Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar Bennod 1 o Ran 1 o'r Bil, hy y darpariaethau sy'n ymwneud â'r Cynllun. Ysgrifennodd Llywodraeth y DU at Weinidogion Cymru cyn ymgynghori i nodi cynigion Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi amcanion polisi Llywodraeth y DU.

8. Y ffordd y mae'r Bil yn ceisio cyflawni'r bwriadau polisi mewn perthynas â'r Cynllun fel y nodir yn Rhan 1 o Bennod 1, yw drwy alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau am gwmnïau pwll asedau yn y Cynllun, gosod amodau y mae rhaid i'r cwmnïau hynny eu bodloni, gorfodi awdurdodau gweinyddol y Cynllun i gyfranogi mewn cwmni pwll asedau, a bod rhaid i holl fuddsoddiadau'r Cynllun gael eu rheoli gan gwmnïau pwll asedau. Bwriad y polisi yw i'r rheoliadau cynllun (y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol) nodi'r cyfrifoldeb rhwng yr awdurdodau gweinyddol a'r cwmnïau pwll asedau, sef bod yr awdurdodau gweinyddol yn parhau i fod yn gyfrifol am osod strategaeth fuddsoddi ar gyfer eu cronfa, ac i'r cwmnïau pwll asedau fod yn gyfrifol am weithredu'r strategaeth honno. Bydd y darpariaethau hefyd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i nodi mewn rheoliadau ofyniad i awdurdodau gweinyddol y Cynllun weithio gydag awdurdodau strategol (sef y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yng Nghymru), ac i drefnu ac ariannu adolygiadau llywodraethu.

9. Yn dilyn ymgynghoriad, ysgrifennodd y Gweinidog Pensiynau ataf ar 4 Mehefin 2025 i gadarnhau bwriad Llywodraeth y DU i gyflwyno'r Bil Cynlluniau Pensiwn ac yn benodol y darpariaethau mewn perthynas â'r Cynllun. Cadarnhaodd hyn y disgwyliad y byddai Partneriaeth Pensiwn bresennol Cymru yn parhau i fod yn bwll asedau i Gymru ac y byddai'r pwll yn dod yn rhan o gwmni rheoli buddsoddiadau annibynnol a awdurdodir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, a fydd yn rheoli 100 y cant o fuddsoddiadau ei gronfeydd partner.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

10. Rwyf o'r farn bod cymalau 1, 2, 4 a 5 o'r Bil yn addasu swyddogaethau sy'n arferadwy gan awdurdodau Cymreig datganoledig ac felly'n sbarduno'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn y Senedd.

11. Mae cymalau 1 i 7 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â rheoliadau cynllun sy'n ymwneud â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i weithwyr llywodraeth leol ar gyfer Cymru a Lloegr. Diffinnir rheoliadau cynllun fel y rhai a wneir o dan adran 1 o Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013

(Deddf 2013). Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 yw'r rheoliadau cynllun i weithwyr llywodraeth leol ar gyfer Cymru a Lloegr.

12. Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun pensiwn galwedigaethol. Cedwir pensiynau galwedigaethol yn ôl drwy weithrediad paragraff 134 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006). Mae rheoleiddio pensiynau galwedigaethol, gan gynnwys y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, felly wedi ei gadw'n ôl ac nid yw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. (Er eglurder, mae esemptiad ym mharagraff 134 o Atodlen 7A mewn perthynas â chynlluniau pensiwn ar gyfer aelodau awdurdodau lleol. Mae darpariaethau'r Bil, fodd bynnag, yn ymwneud â chyflogeion awdurdodau lleol ac nid ag aelodau felly nid ydynt yn dod o fewn yr esemptiad i'r mater a gedwir yn ôl.)

13. Mae'r Cynllun yn darparu bod rhaid i rai cyrff datganoledig yng Nghymru (y cyfeirir atynt fel awdurdodau gweinyddol neu reolwyr cynlluniau), gynnal cronfa bensiwn ar gyfer y cynllun. Mae pob corff yn gyfrifol am reoli a gweinyddu'r Cynllun ar gyfer unrhyw berson y mae'n awdurdod gweinyddol priodol ar ei gyfer. Y cyrff hyn yw: Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Caerfyrddin, Dinas a Sir Caerdydd, Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Powys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Mae llywodraeth leol yn faes datganoledig yn gyffredinol, ac mae cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru yn Awdurdodau Cymreig Datganoledig (Atodlen 9A i Ddeddf 2006).

14. Nid yw cymalau 1,2,4 a 5 o'r Bil ynddynt eu hunain yn rhoi, yn dileu nac yn addasu unrhyw rai o swyddogaethau'r awdurdodau gweinyddol ond maent yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol drwy Reoliadau Cynllun i addasu'r ffordd y mae'r cyrff hyn yn gweithredu mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

15. Mae cymal 1 yn gwneud darpariaethau am y defnydd o gwmnïau pwll asedau. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdodau gweinyddol yng Nghymru a Lloegr yn cymryd rhan mewn pyllau asedau ar y cyd ar sail anstatudol. Yng Nghymru, ffurfiodd yr 8 awdurdod gweinyddol Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Mae'r cymal yn caniatáu i reoliadau cynllun ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gynnwys darpariaeth am gwmnïau pwll asedau a chyfranogiad awdurdodau gweinyddol mewn cwmnïau pwll asedau. Caiff rheoliadau cynllun o dan y pŵer hwn, ymhlith materion eraill, nodi pethau y mae rhaid i awdurdodau gweinyddol eu gwneud neu bethau na chaiff awdurdodau gweinyddol eu gwneud, a hefyd ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn amgylchiadau rhagnodedig ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddol y Cynllun gyfranogi, neu beidio â chyfranogi, mewn pwll asedau penodol. Caiff rheoliadau cynllun ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddol gyfranogi mewn cwmni pwll asedau ac i'r asedau y maent yn gyfrifol amdanynt gael eu rheoli gan y cwmni pwll asedau hwnnw, a chaniateir iddynt hefyd ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddol gymryd camau i sicrhau bod eu cwmni pwll asedau yn cael ei awdurdodi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

16. Mae cymal 2 yn gwneud darpariaeth am Reoli Asedau. Mae'n darparu, pan fo rheoliadau cynllun a wneir o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 (Deddf 2013) ar gyfer y Cynllun yn gwneud darpariaeth am gwmnïau pwll asedau, rhaid iddynt gynnwys darpariaeth ynghylch rheoli cronfeydd ac asedau'r Cynllun hwnnw. Mae hyn yn cynnwys gofyniad bod pob awdurdod gweinyddol yn gosod, yn cyhoeddi ac yn cynnal strategaeth fuddsoddi a bod y cronfeydd y mae'n gyfrifol amdanynt yn cael eu dal gan y cwmni pwll asedau y mae'n cyfranogi ynddo ac yn cael eu rheoli'n briodol yn unol â hynny. Mae'n caniatáu i ddarpariaeth gael ei gwneud mewn rheoliadau cynllun ynghylch y ffynonellau cyngor y caiff rheolwr cynllun neu y mae rhaid i reolwr cynllun (hy yr awdurdodau gweinyddol) eu defnyddio i lunio ei strategaeth fuddsoddi a'r hyn y caniateir ei gwmpasu neu y mae rhaid ei gwmpasu gan y strategaeth honno. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddol gydweithredu ag awdurdodau strategol, sef y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yng Nghymru, i nodi a datblygu cyfleoedd buddsoddi.

17. Mae cymal 4 yn darparu y caiff rheoliadau cynllun ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer Cymru a Lloegr gynnwys darpariaeth i adolygiadau llywodraethu gael eu cynnal o awdurdodau gweinyddol unigol ar sail gyfnodol neu ad hoc, ac i'r Ysgrifennydd Gwladol ddyroddi canllawiau ynghylch yr adolygiadau hynny a sut y gallant ymateb i adolygiad o'r fath. Felly, mae'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i roi swyddogaeth i awdurdodau gweinyddol i drefnu ac ariannu adolygiadau llywodraethu cyfnodol neu ad hoc.

18. Mae cymal 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch uno cronfeydd. Mae'n diwygio Atodlen 3 i Ddeddf 2013 i egluro pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau ynghylch gweinyddu, rheoli a dirwyn i ben unrhyw gronfeydd pensiwn. Mae'r pŵer hwn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i uno dwy gronfa bensiwn neu ragor, gan gynnwys uno gorfodol. Byddai hyn yn cael yr effaith o fod angen dim ond un awdurdod gweinyddol lle bu dau neu ragor ohonynt, gan ddileu felly swyddogaethau Awdurdod Cymreig Datganoledig pe bai cronfeydd yn cael eu huno.

19. Er cyflawnder, nid yw cymalau 3, 6 a 7 yn gwneud darpariaethau sy'n rhoi, yn addasu nac yn dileu unrhyw rai o swyddogaethau'r awdurdodau gweinyddol, gan gynnwys yr wyth sydd yng Nghymru.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

20. Nodwyd barn Llywodraeth y DU ym mharagraff 46 o'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil wrth ei gyflwyno. Mae'r holl fesurau yn y Bil yn gymwys i Gymru ac yn ymwneud â phensiynau personol a phensiynau galwedigaethol, sy'n faterion a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, barn Llywodraeth y DU yw bod darpariaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, cymalau 1,2,4 a 5 yn benodol, yn addasu swyddogaethau a gedwir yn ôl sy'n arferadwy gan Awdurdodau Cymreig Datganoledig ac felly yn sbarduno'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn Senedd Cymru. Rwy'n cytuno â'r asesiad hwn.

**Y rheswm dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Cynlluniau Pensiwn**

21. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn bwll pensiwn sefydledig sydd wedi bod yn gweithio i ddod â manteision maint i drefniant cynllun pensiwn llywodraeth leol yng Nghymru ers blynyddoedd lawer. Bydd deddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth y DU yn galluogi parhau i ddatblygu pwll penodol i Gymru ac yn cryfhau'r manteision maint ymhellach, gan gynnwys mwy o arbenigedd, gwell gwerth am arian a gwell gwydnwch.

22. Mae'r Bil hwn yn ymdrin â materion a gedwir yn ôl ond wrth wneud hynny mae'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol a fydd yn eu galluogi i addasu swyddogaethau Awdurdodau Datganoledig Cymru, felly mae'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig. Am y rheswm hwn, mae'r Bil hwn yn galluogi'r amcanion polisi i gael eu cyflawni yn y ffordd fwyaf effeithiol, ac mae er budd gorau Cymru i gymryd darpariaethau yn y Bil hwn.

**Goblygiadau ariannol**

23. Bydd y goblygiadau ariannol i awdurdodau gweinyddol sy'n deillio o'r darpariaethau hyn i'w talu o'u Cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**Casgliad**

24. Yn fy marn i, mae'n briodol i'r darpariaethau yn y Bil hwn gan y DU addasu swyddogaethau  Awdurdodau Cymreig Datganoledig. Mae hyn oherwydd eu bod yn creu pwerau a fydd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i addasu swyddogaethau Awdurdodau Cymreig Datganoledig dim ond mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol,. Bydd y pwerau hyn yn galluogi pwll pensiwn Cymru i barhau i ddatblygu ac i elwa ar y manteision maint, gan gynnwys mwy o arbenigedd a gwydnwch a gwell gwerth am arian. Felly, rwyf yn argymell y dylai'r Senedd gefnogi'r cynigion a rhoi ei chydsyniad.

**Jayne Bryant AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**26 Mehefin 2025**